Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr
Bryntirion
Rhaeadr
Powys
LD6 5DE

13/12/2024

Annwyl Mrs Linda Crockett

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2024

Cawsom gyfle i ymweld ag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr yn ddiweddar. Buom yn ystyried sut mae arweinwyr a staff yn mynd i'r afael â dau o'r tri argymhelliad o'u harolygiad craidd diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2022.

Yn ystod yr ymweliad, buom:

- Yn cynnal teithiau dysgu â phob dosbarth
- Yn cyfarfod â disgyblion, staff ac arweinwyr
- Yn edrych ar waith disgyblion
- Yn darllen ystod o ddogfennau perthnasol a rannodd yr ysgol gyda ni

Isod, ceir crynodeb o gynnydd yr ysgol yn erbyn yr argymhellion.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig eu medrau darllen a'u medrau ysgrifennu estynedig**

- Mae arweinwyr a staff wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr arolygiad craidd ac yn parhau i weithio'n ddiwyd i ddatblygu'r ddarpariaeth a chefnogi cynnydd disgyblion.
- Mae arweinwyr a staff yn parhau i weithio'n dda i gefnogi medrau llythrennedd disgyblion ar draws pob dosbarth o fewn y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o ystod o adnoddau sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ffonig o oedran cynnar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder wrth ddatblygu dealltwriaeth o lythrennau a seiniau yn y blynyddoedd cynnar. Maent yn mwynhau ymgymryd â gweithgareddau annibynnol sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar ar draws gwahanol feysydd y ddarpariaeth. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen yn ymateb

yn dda i gyfleoedd i ddatblygu eu hysgrifennu annibynnol, a llawer o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau sylweddol o ran hyd, i safon dda.
- Mae athrawon wedi rhoi pwyslais ar ddatblygu medrau darllen lefel uwch disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad disgyblion o lyfrau a llenyddiaeth. Mae agweddau fel ymweliadau â'r llyfrgell leol, annog darllen ar yr aelwyd a'r cynllun cyfeillio yn hyrwyddo'r pleser y gall disgyblion ei gael trwy ddarllen. Caiff yr ymagwedd hon effaith fuddiol ar ddatblygu diwylliant darllen cadarnhaol yn yr ysgol.
- Mae arweinwyr wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu ysgrifennu estynedig disgyblion, gan ddarparu ystod fuddiol o gyd-destunau i'r disgyblion ddatblygu eu syniadau. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ystod addas o genres yn eu gwersi iaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig i'r un graddau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, yn rhannol oherwydd gorddibyniaeth ar daflenni gwaith.

**Cryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn Gymraeg o'u gwahanol fannau cychwyn**

- Mae arweinwyr wedi trefnu gweithgareddau gwerthfawr i ddathlu diwylliant Cymreig, fel gweithdai am Owain Glyndŵr a chwedl Llyn Y Fan Fach.
- Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais cynyddol ar sicrhau bod disgyblion yn clywed y Gymraeg yn cael ei siarad y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar glywed y Gymraeg yn cael ei siarad mewn gwasanaethau ysgol ac wrth chwarae gemau maes chwarae dan arweiniad aelodau o'r Criw Cymraeg.
- Mae staff yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn gwneud defnydd effeithiol o ymagwedd strwythuredig at ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn datblygu dealltwriaeth gadarn o lythrennau a'u seiniau cysylltiedig.
- Mae staff yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn trochi disgyblion iau yn effeithiol yn y Gymraeg. At ei gilydd, maent yn parhau i gynorthwyo disgyblion hŷn i ddatblygu medrau siarad a gwrando Cymraeg yn briodol, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymestyn eu hatebion yn llawn wrth ateb cwestiynau.
- Mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn mwynhau darllen. Maent yn ysgrifennu mewn ystod addas o genres mewn gwersi iaith, er nad ydynt yn ysgrifennu'n estynedig i'r un graddau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.
- Yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, mae staff yn dechrau rhoi pwyslais cynyddol ar ddatblygu llafaredd Cymraeg. Gwnânt ddefnydd addas o sesiynau dyddiol i ddatblygu hyder disgyblion mewn siarad a gwrando, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn yn llawn.
- Er bod yr ysgol wedi rhoi camau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r argymhelliad, mae arweinwyr yn cydnabod bod lle i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion ymhellach.

Hoffai'r tîm ddiolch i'r pennaeth, y staff a'r disgyblion am eu hymagwedd gadarnhaol at yr ymweliad interim, ac am y croeso cynnes i'r ysgol.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6663036

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol